**ELL 02-01(p.3)**

**Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes**

# ADOLYGIAD ADDYSG UWCH YNG NGHYMRU

## ADRODDIAD YR YMGYNGHORYDD ARBENIGOL AR FATERION SY’N CODI

### Cefndir

Wedi nodi'r 6 phrif thema a'u pynciau cysylltiedig, anfonwyd holiaduron at amrywiaeth o sefydliadau y tu mewn i Gymru a'r tu allan iddi.

Dadansoddwyd yr ymatebion i danlinellu'r meysydd lle ceir consensws dan bob thema. Ar gyfer pob maes, mae rhestr o faterion i'w hystyried y gall y Pwyllgor fod yn dymuno rhoi sylw iddynt yn eu cyfarfodydd gyda sefydliadau unigol ac yn ystod y cyflwyniadau diweddarach ar y themâu.

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y meysydd lle ceir consensws a'r prif bynciau sydd dan sylw. Darperir dadansoddiad manylach o'r ymatebion ar gyfer y sesiynau diweddarach pan archwilir themâu unigol. Bydd hyn yn cynnwys pynciau a sylwadau ychwanegol a gyflwynir gan sefydliadau unigol.

### Sylwadau Cyffredinol

Mae Addysg Uwch (AU) yn farchnad fyd-eang anferth sy'n newid yn gyflym. Dyma rai o'r newidiadau mwyaf:

- symud o farchnad farch, elitaidd i gyfranogiad torfol mewn AU;
- trefniadau cyllido myfyrwyr a'r ffordd y gwelir myfyrwyr fel defnyddwyr o ganlyniad i hynny;
- symud oddi wrth ffurfiau traddodiadol o gyflwyno gwybodaeth mewn ffordd oddefol i safbwynt sy'n canolbwyntio ar y myfyrwyr – a hynny'n cael eu hwyluso gan ddatblygiadau mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu;
- darparwyr AU yn ymddangos ar ffurf cwmnïau-prifysgol a mudiadau preifat sy'n gwneud elw.

## 1. Maint a ffurf AU

- Mae angen sefydliad ymchwil o safon fyd-eang ar Gymru
- Rhaid i'r sector AU wasanaethu marchnadoedd rhyngwladol, cenedlaethol a rhanbarthol.
- Mae Sefydliadau Addysg Uwch (SAU) yn cydnabod bod ganddynt swyddogaeth bwysig o ran adfywio cymdeithasol ac economaidd.
- Mae angen i'r sector AU fanteisio ar y camau breision a wneir ym maes Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) i'w helpu i gystadlu ar lefel fyd-eang a chyflwyno dysgu sy'n canolbwyntio ar fyfyrwyr ledled Cymru.
- Rhaid i'r sector AU allu darparu cyrsiau galwedigaethol ac ehangu mynediad ledled Cymru gyfan.
- Mae SAU yng Nghymru'n fach o'u cymharu gyda'u cymheiriaid yng ngweddill y DU.
- Mae AU yng Nghymru wedi'i danariannu o'i chymharu â'i chymheiriaid yn y DU, yn enwedig yn yr Alban. Mae hyn yn effeithio ar allu'r sector i recriwtio a chadw staff a myfyrwyr da.
- Mae angen i Gymru gadw amrywiaeth ei darpariaeth (er nad oes rhaid i bob sefydliad gynnig pob pwnc). Mae hyn yn cynnwys ei hymrwymiad i ddarpariaeth Gymraeg ei chyfrwng.
- Mae angen annog y sector i gydweithio – boed drwy uno, cydweithio neu gydffederasiwn. Mae'r trefniadau cyllido cyfredol yn hyrwyddo cystadleuaeth yn hytrach na chydweithredu.
- Os penderfynir ailstrwythuro, dylid cofio bod rhai sefydliadau'n gwasanaethu marchnadoedd niche e.e. Y Coleg Cerdd a Drama, Coleg y Drindod.
- Bydd cynnig cyrsiau sy'n berthnasol ac o safon uchel yn denu myfyrwyr i Gymru a hefyd yn cadw myfyrwyr cynhenid.

## Pynciau i'w hystyried

1. A yw sefydliadau AU yng Nghymru'n ddigon o faint critigol i'w galluogi i gystadlu mewn marchnad fyd-eang sy'n tyfu ym maes Addysgu ac Ymchwil?
2. Onid ydynt, a ellir cyflawni hyn drwy annog cydweithredu ar hyd yr un llinellau ag ar hyn o bryd, ynteu a oes angen agwedd fwy radical sy'n cynnwys ailstrwythuro sector AU Cymru?
3. beth yw goblygiadau mabwysiadu gwahanol fathau o fodelau ar gyfer ailstrwythuro AU o ran cyllido, sicrhau ansawdd, annibyniaeth sefydliadau ayb?
4. Mae goblygiadau cost ynghlwm wrth ddatblygu strwythurau newydd a chyflwyno technolegau newydd hefyd. A fydd arian ar gael i gefnogi'r newidiadau hyn?
5. A all AU yng Nghymru barhau'n gystadleuol heb gael yr un lefel o gyllid a chael ei thrin yn gyfartal?

2. **Dysgu ac Addysgu**

Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

- Gwelir TGCh yn ddatblygiad allweddol ar gyfer y dyfodol ond ceir cystadleuaeth ryngwladol gref.
- Mae angen buddsoddiad anferth – yn fyd-eang, eir ati i wneud hyn ar raddfa fawr iawn – "$1miliwn i ddatblygu un cwrs".
- Nid yw Cymru ar flaen y gad ym maes TGCh ar hyn o bryd.
- Mae angen mecanweithiau cefnogi lleol effeithiol i fyfyrwyr sy'n astudio ar-lein.
- Nid yw cyflwyno cyrsiau drwy TGCh yn briodol i bob categori o fyfyrwyr.
- Mae angen hyfforddiant ar staff.
- Mae angen mecanweithiau sicrhau ansawdd cadarn ar gyfer pob math o astudio ond yn enwedig ar gyfer rhai sy'n cynnwys dysgu o bell.
- Gall TGCh helpu Cymru i gystadlu'n effeithiol am fyfyrwyr rhyngwladol; cyrraedd myfyrwyr sy'n ei chael hi'n anodd cael gafael ar AU; hwyluso cydweithredu e.e. mewn addysgu, ymchwil ac o ran ymestyn darpariaeth Gymraeg ei chyfrwng.

Gallu i gystadlu ar lefel fyd-eang

- Mae ansawdd y ddarpariaeth ac addasrwydd at y diben yn hanfodol.
- Mae angen nawdd digonol i ddenu staff o safon uchel a'u cadw.
- Mae enw da yn rhyngwladol yn bwysig.

Y farchnad ar gyfer dysgu gydol oes, dysgu o bell a dysgu hyblyg

- Mae llwyddiant Cymru i ehangu mynediad yn well na'r llwyddiant yn y DU drwyddi draw.
- Mae'n debyg mai yn y farchnad ran-amser a'r farchnad hyblyg y mae'r ehangu'n debygol o fod yn y dyfodol.
- Mae angen mecanweithiau cefnogi cadarn i fod yn gefn i'r broses o gadw myfyrwyr.
- Mae llwybrau mynediad hyblyg a dilyniant di-fwlch yn elfennau allweddol.
- Mae cyflwyno ffioedd a dileu'r grantiau cynnal wedi rhwystro pobl o grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli rhag ymgeisio.

Rhaglenni sy'n berthnasol i alwedigaethau

- Mae angen dadansoddiad clir o'r ddarpar farchnad a blaengynllunio.
- Mae angen cryfhau'r cysylltiadau gyda chyflogwyr.

**Pynciau i'w hystyried**

1. A fydd digon o nawdd ar gael i ddatblygu TGCh ar sail Cymru Gyfan yn hytrach na gadael hyn i sefydliadau unigol gyflwyno datblygiadau ad hoc?
2. A all Cymru fforddio i gael ei gadael ar ôl ym maes datblygu TGCh ar gyfer AU?
3. A yw'r systemau trosglwyddo credyd cyfredol yn ddigon i sicrhau dilyniant di-fwlch ac yn ddigon hyblyg i ymateb i batrymau astudio sy'n newid?
4. Sut mae annog mwy o ryngweithio rhwng cyflogwyr/academia?
5. I ba raddau y dylid gweld dysgu gydol oes yn fantais ynddo'i hun yn hytrach na'i fod yn gysylltiedig â'r farchnad lafur gyfnewidiol?
6. Sut mae sefydliadau AU yn gwella'u cyfraddau cadw tra'n mynd i'r afael â chynlluniau mynediad ehangach (mewn tystiolaeth ddiweddar i Bwyllgor Addysg T 'r Cyffredin amcangyfrifwyd fod costau 'pobl yn gadael-cyrsiau' yn £200m y flwyddyn i'r trethdalwr.

2. **Adfywio Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol**

- Mae AU yn adnodd pwysig i'r economi – mae AU yng Nghymru'n werth dros £1 biliwn mewn incwm ac yn darparu dros 23,000 o swyddi. Nid yw hyn yn cael llawer o gyhoeddusrwydd.
- Mae SAU hefyd yn cyfrannu at adfywio drwy waith ymchwil; trosglwyddo technoleg; ymgynghori, addysgu gweithlu sgilgar ayb.
- Mae SAU yn cydnabod bod ganddynt swyddogaeth bwysig o ran adfywio cymdeithasol ac economaidd.
- I gyflawni'r swyddogaeth hon yn effeithiol, byddai AU yn elwa o drydedd ffrwd o incwm ar wahân i'w chyllid addysgu ac ymchwil.
- Mae gan Gymru hanes da o lwyddo o ran ehangu cyfranogiad o'i gymharu â gweddill y DU ond mae llawer o waith i'w wneud o hyd i gwrdd â dyheadau'r Cynulliad Cenedlaethol.
- Mae'r cysylltiadau rhwng Addysg Bellach (AB) ac AU yn gonglfaen ar gyfer adfywio diwylliannol a chynnydd di-fwlch.

**Pynciau i'w hystyried**

1) Sut orau mae asesu a rhoi cyhoeddusrwydd i effaith AU ar economi Cymru?

2) A ellir darparu trydedd ffrwd o incwm i sicrhau nad oes effaith niweidiol ar weithgareddau addysgu ac ymchwil craidd?

3 Sut mae taro cydbwysedd rhwng bod SAU yn ymateb i anghenion lleol penodol a chydweithredu (gyda SAU eraill a'r sector cyhoeddus/gwirfoddol) ar gynlluniau i osgoi dyblygu gwastraffus?

4) A ddylai'r cyllido fod yn sensitif-i'r-bwriad e.e. mae angen cyllid premiwm ar gyfer ehangu mynediad?

5) Sut y gall AU fynd i'r afael ymhellach â phroblemau dieithrwch cymdeithasol?

6) Sut y gall AU Cymru ehangu mynediad i ddarpariaeth Gymraeg ei chyfrwng heb ddyblygu cyrsiau a chan gofio mai prin yw adnoddau'r sector?

7) A oes modd darparu cyllid hirdymor ar gyfer mynediad a chynlluniau eraill i ganiatáu safbwynt mwy strategol?

## 4. Ymchwil

- Mae angen sylfaen ymchwil o safon fyd-eang ar Gymru.
- Cyllid sydd wrth wraidd adeiladu cymuned ymchwil lwyddiannus – i ddarparu cyfleusterau da ac i ddenu a chadw staff da.
- Mae'n faes lle gall cydweithredu rhwng gwahanol SAU neu rhwng SAU/diwydiant fod yn werthfawr iawn. Fodd bynnag, mae'r trefniadau cyllido presennol yn ffafrio cystadleuaeth yn hytrach na chydweithio.
- Cydnabyddir gwerth pob ffrwd ymchwil – sylfaenol a chymwysedig – a dylai'r cyllid adlewyrchu hyn.
- Mae angen cyllid hadu i gefnogi unigolion talentog ac unedau ymchwil sy’n egino.
- Ni ellir gwahanu gweithgareddau ymchwil ac addysgu. Mae’r ddau’n ysgogi ei gilydd ac mae’r ddau yn effeithio ar allu sefydliad i recriwtio staff a myfyrwyr.
- Mae llawer o bobl sy’n ymateb yn teimlo bod y gymhareb staff-myfyrwyr yng Nghymru’n waeth nag yng ngweddill y DU. O ganlyniad, mae gan staff faich gwaith trymach a llai o amser i’w neilltuo i weithgareddau ysgolheigaidd.
- Mae angen cyngor arbenigol ar SAU ar Hawliau Eiddo Deallusol (HED) a dadansoddi risg.

### Pynciau i’w hystyried

1. A oes modd cyflawni ymchwil o safon fyd-eang os yw'r gweithgareddau ymchwil yn dal i fod wedi'u gwasgaru dros fân unedau neu a ddylid canolbwyntio'r ymchwil mewn un neu ddau sefydliad?
2. O ddewis yr ail, a oes dadl dros gael sylfaen ymchwil o safon fyd-eang ac un o safon genedlaethol?
3. Ai'r mecanweithiau cyllido presennol yw'r ffordd orau o ateb gofynion adeiladu sylfaen ymchwil gadarn yn y ffordd orau?
4. Sut mae modd annog a chyllido meysydd ymchwil sy'n egino?
5. Sut mae sicrhau cydbwysedd rhwng y ffrydiau ymchwil?

## 5. Cyllido

- Mae AU Cymru'n cael ei thanariannu o'i chymharu gyda Lloegr ac yn fwy byth felly o'i chymharu â'r Alban.
- Mae tangyllido'n effeithio ar ansawdd; ystadau; y gallu i recriwtio a chadw myfyrwyr/staff; y gallu i gyfrannu at ffyniant economaidd, diwylliant, iechyd a datblygiad cymdeithasol Cymru.
- Mae sawl ffactor sy'n gwneud AU yng Nghymru'n ddrutach i'w chynnal nag yng ngweddill y DU, gan gynnwys daearyddiaeth, dwyieithrwydd, taeniad y boblogaeth a'r seilwaith trafnidiaeth.
- NI ellir cynnal y gwelliannau effeithlonrwydd (35% rhwng 1989/90 a 1998/99) heb i hynny effeithio er gwaeth ar ansawdd.
- Ni ddylai'r nawdd ar gyfer cynlluniau megis ehangu mynediad neu weithgareddau adfywio fod ar draul y gweithgareddau craidd, sef addysgu ac ymchwil.
- Teimlir fod y gystadleuaeth am gyllid yn wrthgynhyrchiol ac yn arwain at wyro oddi ar y trywydd a chydymffurfio. O ganlyniad, fe all SAU fod yn ymgeisio am nawdd a all fod heb lawer o fudd nac yn ariannol nac yn strategol.
- Dylid anelu'r nawdd i gylchoedd cynllunio mwy hirdymor yn hytrach na chynlluniau tymor byr.
- Mae caledi ariannol myfyrwyr wedi effeithio ar allu i recriwtio a chadw myfyrwyr.
- Mae angen cefnogaeth gyfartal i fyfyrwyr.

### Pynciau i'w hystyried

1. A oes modd codi lefel gyllid AU yng Nghymru i lefel gyfatebol â'r hyn a geir yn Lloegr, a, efallai yn fwy perthnasol, â'r hyn a geir yn yr Alban?
2. A oes modd i gynlluniau cyllido fod yn fwy sensitif i'r bwriad ac yn seiliedig ar fformiwla a llai cystadleuol?

3. A all y cyllido fod dros gylchoedd mwy hirdymor i hwyluso cynllunio strategol?
4. A fyddai modd i bob myfyriwr gael gafael ar gyllid myfyrwyr waeth beth yw eu dull neu eu patrwm astudio er mwyn annog twf dysgu rhan-amser a dysgu o bell?
5. A oes modd i'r adolygiad annibynnol ar gyllid myfyrwyr edrych ar y gydberthynas rhwng myfyrwyr sy'n gweithio i gyllido'u hastudiaethau a chyfraddau cadw myfyrwyr ac ansawdd eu profiad AU yn gyffredinol?

-

-

## 6. Atebolrwydd

- Dylai AU fod yn atebol am ansawdd ei darpariaeth a'i defnydd o adnoddau.
- Mae'r system sicrwydd ansawdd cyfredol yn rhy feichus, yn ddrud (mae'n costio £12.5 miliwn bob blwyddyn i'r sector), yn cael ei lywio gan y drefn cydsynied ac yn gwyro adnoddau oddi wrth fyfyrwyr.
- Mae peryglon ynghlwm wrth weithgareddau cynhyrchu economaidd. Ni ddylai SAU cael eu hannog i beidio â dilyn trywydd gweithgareddau o'r fath ond efallai fod angen cyngor arbenigol arnynt i'w helpu i gynnal dadansoddiadau risg yn y cyswllt hwn.

:

### Pynciau i'w hystyried

1. Sut mae modd gwneud y drefn atebolrwydd bresennol yn llai beichus ac yn llai gwastraffus o ran adnoddau?
2. Pa le sydd i'r Cynulliad ysgafnhau'r baich hwn?
3. Beth yw'r cydbwysedd iawn rhwng atebolrwydd ac annibyniaeth SAU?
4. Sut fydd rhaglen newydd sicrwydd ansawdd yr Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd (ASA) yn effeithio ar AU Cymru?
5. Beth yw swyddogaeth Cofrestrfa Prifysgol Cymru ac a yw'n darparu gwerth am arian ac yn gostwng y baich atebolrwydd sydd ar sefydliadau bychain?
6. Pa mor glir yw statws pob sefydliad o ran SA academaidd?

### Pynciau ychwanegol

Isod, rhestrir pynciau nas ymdriniwyd â hwy, neu nas ymdriniwyd â hwy ond yn rhannol yn yr

holiadur ac y dymunai rhai ymatebwyr eu cynnwys.

- Adnoddau’r gweithlu – gan gynnwys anghenion datblygu staff a materion contractaidd megis y cynnydd mewn defnyddio staff achlysurol.
- Newid diwylliant AU – i goleddu materion megis datblygu dulliau addysgu a dysgu newydd drwy TGCh, gweithgareddau sy’n ymwneud ag adfywio economaidd a diwylliannol, y cydbwysedd rhwng gweithgareddau craidd ac ychwanegol.
- Fframwaith i ddirwyn camwahaniaethu mewn cyflogaeth i ben yn erbyn pobl oherwydd eucefndir ethnig neu eu rhyw.